Hawdd ei ddeall

# Trafnidiaeth a phobl ifanc

## Adroddiad am beth mae pobl ifanc yn feddwl am drafnidiaeth



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Senedd Ieuenctid Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ffyrdd Cynaliadwy**'.

**Tachwedd 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn ysgrifen glas trwm yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar dudalen 17.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Senedd Ieuenctid Cymru. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** [www.seneddieuenctid.cymru](www.seneddieuenctid.cymru)

**E-bost:** [helo@seneddieuenctid.cymru](mailto:helo@seneddieuenctid.cymru)

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols_403527247

# Cynnwys


Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma ........ 2

Pwy ydyn ni ........ 4

Beth mae pobl ifanc yn ei ddeall am drafnidiaeth........ 6

Cost ........ 8

Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ........ 9

Beicio a cherdded ........12

Hysbysrwydd........14

Cael eich trin yn wael neu'n annheg ........15

Geiriau Anodd........17

# Pwy ydyn ni

Ni ydy **Senedd Ieuenctid Cymru**.



Mae grŵp ohonom ni yn rhan o'r **Pwyllgor Hinsawdd a'r Amgylchedd**.



Grŵp ydy hwn sydd wedi cael ei sefydlu i edrych ar faterion am **argyfwng hinsawdd**.

Mae'r **argyfwng hinsawdd** yn meddwl yr angen brys i ofalu am y blaned. A lleihau'r tanwydd sy'n achosi i'r blaned gynhesu. Mae tanwydd yn bethau fel olew a nwy.

Mae'r tanwydd yma yn gwneud sylwedd o'r enw carbon. Mae **carbon** yn cynhesu ac yn niweidio'r blaned.




Yng Nghymru mae'r defnydd o drafnidiaeth yn achosi llawer o **garbon**. Felly, fe wnaethon ni benderfynu edrych ar sut mae trafnidiaeth yn gallu cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd mwy gwyrdd.



Er enghraifft, drwy gerdded a beicio. Dydyn nhw ddim yn achosi unrhyw **garbon**.



Fe wnaethon ni siarad â dros 1,300 o bobl ifanc am beth roedden nhw'n feddwl a'u syniadau. Rydyn ni hefyd wedi siarad â rhai rhieni a gofalwyr.

# Beth mae pobl ifanc yn ei ddeall am drafnidiaeth



Fe wnaethon ni ddarganfod bod 2 o bob 3 o bobl yn gwybod sut i deithio mewn ffyrdd gwell ar gyfer y blaned.



Roedden nhw'n gwybod pam fod y rhain yn well i'r blaned a sut mae pethau fel cerdded yn dda iddyn nhw hefyd.



Roedd tua hanner y bobl ifanc yn teimlo bod ysgolion a cholegau yn llefydd da i ddysgu am y materion yma.



Roedd llai nag 1 o bob 3 o bobl yn gwybod am gynlluniau i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn rhatach. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn meddwl bysiau a threnau.



Er enghraifft, dywedodd rhywun fod ganddyn nhw gerdyn oedd yn rhoi arian i ffwrdd iddyn nhw pan yn defnyddio'r bws.



Roedden ni'n synnu nad oedd mwy o bobl yn gwybod am gynlluniau fel hyn.



Rydyn ni'n credu bod angen gwneud mwy i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am hyn.




Mae angen gwneud mwy i helpu pobl i ddeall pam mae teithio gwyrddach yn bwysig.

**Beth rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd nesaf:**



- Mae angen i ysgolion a cholegau dreulio mwy o amser yn dysgu pobl am drafnidiaeth wyrddach.



- Mae angen gwneud mwy i helpu pobl i ddeall y cynlluniau sy'n gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn rhatach.

# Cost




Un o’r problemau mwyaf i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus oedd cost.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl bod trafnidiaeth gyhoeddus yn rhy ddrud.



Dywedodd hanner y bobl ifanc y bydden nhw’n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus pe bai’n rhad ac am ddim.

**Beth rydyn ni’n meddwl ddylai ddigwydd:**




- Rydyn ni’n credu y dylai trafnidiaeth gyhoeddus fod yn rhad ac am ddim i bobl dan 25 oed.



- Fe ddylai fod mwy o gynlluniau i helpu pobl ifanc i brynu beic.

# Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus



Dywedodd llawer o bobl ifanc nad oedd digon o drafnidiaeth gyhoeddus. Roedd hyn yn effeithio ar faint roedden nhw'n ei ddefnyddio.



Roedd hon yn broblem fawr i bobl sy'n byw yng nghefn gwlad.



Roedd barn gymysg am ba mor ddibynadwy ydy bysiau a threnau.



Roedd llawer mwy o bobl yn teimlo'n fwy diogel yn teithio mewn car na bws neu drên.



Doedd y rhan fwyaf o bobl ddim yn meddwl bod bysiau neu drenau'n gyfforddus.



Roedd llawer o bobl yn meddwl nad oedd digon o arian wedi cael ei wario ar fysiau na threnau.



Roedd gan bobl ag anabledd corfforol a phobl **niwroamrywiol** broblemau gyda defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.



Mae **niwroamrywiol** yn meddwl pobl sy'n meddwl ac yn prosesu gwybodaeth yn wahanol i lawer o bobl eraill. Er enghraifft, mae cyflyrau fel awtistiaeth yn **niwroamrywiol**.



Er enghraifft, drwy ddefnyddio cadair olwyn neu sŵn.

**Beth rydyn ni'n meddwl sydd angen digwydd:**




- Mae angen mwy o lwybrau bws a threnau.



- Mae angen iddyn nhw fod yn fwy aml.



- Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn fwy dibynadwy.



- Mae angen i amseroedd teithio fod yn fyrrach.



- Mae angen meddwl mwy am bobl ag anableddau corfforol a phobl **niwroamrywiol**.

# Beicio a cherddded



Roedd pobl yn teimlo’n llai diogel am feicio.



Roedd mwy o bobl yn teimlo’n fwy diogel wrth gerdded.



Roedd llawer o bobl eisiau cerdded neu feicio mwy. Ond roedden nhw eisiau iddo fod yn haws.



Dywedodd pobl bod angen mwy o lwybrau beicio a cherdded.



Roedden nhw hefyd eisiau iddo fod yn fwy diogel i barcio beic.

**Beth rydyn ni'n meddwl sydd angen digwydd:**




- Mae angen gwario arian ar wella llwybrau beicio a cherdded.



- Mae angen mwy o lwybrau beicio a cherddded.



- Mae angen mwy o lonydd beic.



- Mae angen parcio gwell ar gyfer beiciau.

# Hysbysrwydd





Dywedodd llawer o bobl eu bod yn ei chael hi'n anodd cael y wybodaeth maen nhw ei angen am drafnidiaeth.




Dywedodd llawer o bobl nad oedd digon o wybodaeth fyw. Er enghraifft, os ydy bws yn rhedeg yn hwyr.

**Beth rydyn ni'n meddwl sydd angen digwydd:**



- Mae angen gwella gwybodaeth.



- Mae angen opsiwn tocynnau lle rydych chi'n gallu defnyddio'r un tocyn ar fws neu drên.

# Cael eich trin yn wael neu'n annheg

Dywedodd pobl eu bod yn cael eu trin yn wael neu'n annheg ar drafnidiaeth gyhoeddus oherwydd eu:



- Hil



- Cyfeiriadedd rhywiol – mae hyn yn meddwl at pwy mae rhywun yn cael ei ddenu. Er enghraifft, os ydy rhywun yn hoyw



- Rhyw.



Doedd 1 o bob 4 o bobl o **leiafrif ethnig** ddim yn teimlo'n ddiogel ar fysiau neu drenau.

Mae **lleiafrif ethnig** yn meddwl bod hil neu gefndir person yn llai cyffredin na llawer o bobl eraill sy'n byw yn y lle hwnnw.

**Beth sydd angen digwydd:**



- Mae angen gwneud gwaith i stopio pobl rhag cael eu trin yn wael neu'n annheg ar fysiau a threnau.

# Geiriau anodd

## Carbon a’r argyfwng hinsawdd

Mae’r argyfwng hinsawdd yn meddwl yr angen brys i ofalu am y blaned a lleihau’r defnydd o danwydd sy’n achosi’r blaned i gynhesu. Mae tanwydd yn bethau fel olew a nwy.

Mae’r tanwydd yma yn gwneud sylwedd o’r enw carbon. Mae carbon yn cynhesu ac yn niweidio’r blaned.

## Lleiafrifoedd ethnig

Mae hyn yn meddwl bod hil neu gefndir person yn llai cyffredin na llawer o bobl eraill sy’n byw yn y lle hwnnw.

## Niwroamrywiol

Mae hyn yn meddwl pobl sy’n meddwl ac yn prosesu gwybodaeth yn wahanol i lawer o bobl eraill. Er enghraifft, mae cyflyrau fel awtistiaeth yn niwroamrywiol.